**CABINET**
**15 RHAGFYR 2020**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we trwy Webex ddydd Mawrth 15 Rhagfyr, 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), ac Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd: Patrick Heesom.

## 54. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 55. COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd eu cyflwyno a'u cadarnhau'n gywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

## 56. BRIFFIO YNGHYLCH SEFYLLFA FRYS (LLAFAR)

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad am yr argyfwng presennol. Roedd y nodyn briffio cyfrinachol mwyaf diweddar wedi cael ei anfon at yr Aelodau'r bore hwnnw. Roedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â'r cynllun brechu.

Pe bai Cymru'n mynd i mewn i ryw fath o Lefel 4 ar ôl y Nadolig, byddai pethau fel cyfleusterau hamdden dan do'n gorfod cau, ond byddai llawer o bethau'n gallu aros ar agor, e.e. Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, a byddai rhestr o'r gwasanaethau hynny'n cael ei chreu. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal am sut y gallai ysgolion gael eu hailagor yn ddiogel, a ph'un a fyddai hynny trwy gyfuniad o ffyrdd o ddysgu.

Cafwyd y nifer uchaf eto o achosion yn Sir y Fflint y diwrnod cynt. Roedd y ffigwr wedi gostwng ychydig heddiw. Roedd Gogledd Cymru'n parhau'n sefydlog felly roedd y risg yng Ngogledd Cymru'n is na gweddill Cymru.

Roedd y sefyllfa o ran ysbytai hefyd yn sefydlog ac nid oedd nifer y rhai a oedd yn cael eu derbyn oherwydd Covid-19 wedi cynyddu.  Fodd bynnag, roedd yr ysbytai'n brysur oherwydd y pwysau tymhorol arferol.

Roedd y wlad bellach yn yr ail wythnos o frechu.  Roedd yn falch o gyhoeddi mai cartref gofal yn Sir y Fflint fyddai'r cartref gofal cyntaf yn y DU lle byddai'r trigolion yn derbyn y brechlyn Pfizer.

Roedd y cynllun rheoli traffig ar waith i sicrhau bod posib' cyrraedd a gadael Ysbyty'r Enfys Glannau Dyfrdwy'n fwy diogel ar ôl iddo agor fel canolfan frechu.

Croesawai'r Cynghorydd Thomas y newyddion y byddai Canolfannau Ailgylchu'n cael aros ar agor, a dywedodd fod system archebu lle'n cael ei datblygu.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ysgolion.  Roedd pob ysgol uwchradd wedi newid i ddysgu ar-lein yr wythnos hon, yn dilyn cyfarwyddyd Prif Weinidog Cymru.  Y cyngor gwyddonol oedd nad oedd y risg mor uchel mewn ysgolion cynradd, ond roedd penaethiaid wedi cael eu cynghori y gallent newid i ddysgu ar-lein ddydd Iau a dydd Gwener os oeddent yn dymuno.  Roedd hwn yn benderfyniad i'r penaethiaid a'r cyrff llywodraethu.  Byddai darpariaeth ar gael ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr allweddol.

Gofynnodd y Cynghorydd Bithell pa help oedd yn cael ei roi i blant oedd heb declynnau electronig i ddysgu o bell.  Eglurodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod gwaith wedi'i wneud i nodi pa ddisgyblion oedd dan anfantais ddigidol ac roedd y dysgwyr hynny'n cael benthyg teclynnau o'r ysgolion. Ychwanegodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod hyn yn cynnwys teclynnau Mi-Fi.  Roedd teclyn Mi-Fi yn defnyddio rhwydweithiau 3G, 4G neu 5G ffonau symudol ac yn defnyddio'r cysylltiad i greu cwmwl neu bwynt band eang di-wifr bach.

Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Weithredwr am y diweddariad.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Nodi'r wybodaeth.

## 57. <u>CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2021/22</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a oedd yn rhoi amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer 2021/22 cyn y broses ffurfiol i osod y gyllideb.  Roedd hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol genedlaethol.

Roedd yr adroddiad yn ailosod strategaeth datrysiadau'r gyllideb, a oedd yn dibynnu'n fawr ar gyllid cenedlaethol digonol ar gyfer llywodraeth leol ac nid oedd newidiadau ers y llynedd.

Ymgynghorwyd â phob un o'r pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar yr amcangyfrif a'r strategaeth ar gyfer y gyllideb trwy gydol mis Tachwedd, yn

enwedig ar y pwysau o ran costau a oedd wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif ar gyfer eu portffolios nhw. Fe wnaeth y Pwyllgorau, fel un, y canlynol:

- Cefnogi'r strategaeth gyffredinol ar gyfer y gyllideb;
- Nodi a chefnogi'r pwysau o ran costau mewn portffolios unigol;
- Cefnogi disgwyliadau'r Llywodraethau o ran cyllid cenedlaethol;
- Nodi a derbyn y targed arbedion effeithlonrwydd cyfun o £1-2 miliwn;
- Peidio â chynnig unrhyw opsiynau arbedion eraill i'w hystyried; a
- Chefnogi bwriad y Cyngor ar y polisi trethu lleol h.y. uchafswm o 5% o gynnydd blynyddol i Dreth y Cyngor.

Cyhoeddodd y Canghellor ganlyniad Adolygiad o Wariant y DU ar 25 Tachwedd a'r prif oblygiadau i Gymru oedd:

- £1.3 biliwn o gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru (LlC) (£770 miliwn i barhau i ariannu'r argyfwng a £560 miliwn o gyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus craidd);
- Cynnydd i gyflogau'r sector cyhoeddus i gael eu hatal ar wahân i grwpiau gwaith penodol yn y GIG a phob un sy'n ennill llai na £24,000 y flwyddyn; ac
- Isafswm cyflog i gynyddu 2.2% i rai 23 oed a hŷn.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod y cyfraniad oedd ei angen i ariannu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y cyfraniad i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'r amcangyfrifon oedd eu hangen ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol – incwm gwasanaethau cofrestru/ysgolion wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Roedd tri datrysiad ariannu strategol er mwyn mantoli'r gyllideb:

- Cyllid y Llywodraeth (Cyllid Allanol Cyfun);
- Trethi ac incwm lleol; a
- Thrawsnewid ac arbedion effeithlonrwydd i wasanaethau.

Roedd Tabl 2 yn yr adroddiad yn nodi'r senarios i fantoli cyllideb 2021/22 ar yr isafswm angenrheidiol ar gyfer y gyllideb. Amcangyfrifon gros oedd rhai Treth y Cyngor. Byddai angen i unrhyw effaith o'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor fod wedi'i chynnwys fel costau.

Roedd Tabl 3 yn yr adroddiad yn nodi'r amcangyfrif diwygiedig i'r gyllideb, yn cynnwys y pwysau o ran cyllid ysgolion, anghenion dysgu ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn ôl cyfarwyddyd y Cabinet, ac roedd yn dangos lefel y cyllid oedd ei angen gan LlC.

Nodwyd amserlen y gyllideb fel:

15 Rhagfyr 2020 – Cabinet – Strategaeth ac Amcangyfrif o'r Gyllideb
21 Rhagfyr 2020 – Cyllideb Ddrafft LlC
22 Rhagfyr 2020 – Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol

23 Rhagfyr 2020 – Cabinet Arbennig (bore) a Sesiwn Briffio pob Aelod (pnawn)
19 Ionawr 2021 – Cabinet – Adolygiad o'r Gyllideb
16 Chwefror 2021 – Cabinet a'r Cyngor – Gosod y Gyllideb
2 Mawrth 2021 – Cyllideb/Setliad Terfynol LlC

Byddai diweddariad yn cael ei roi ar lafar yng nghyfarfod Arbennig y Cabinet ar 23 Rhagfyr.

Roedd angen newid i Dabl 3, ar waelod y golofn gyntaf. Dylai £12.357 miliwn fod yn £2.902 miliwn.

Diolchodd y Cynghorydd Banks i'r pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am fod yn gefnogol trwy gydol y broses o osod y gyllideb.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bithell, eglurodd y Prif Weithredwr mai'r farn o hyd oedd y dylai dyfarniadau cyflog cenedlaethol gael eu hariannu'n genedlaethol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r amcangyfrif wedi'i ddiweddaru ar gyfer cyllideb 2021/22;

(b) Derbyn yr adborth gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu; a

(c) Bod y strategaeth i osod cyllideb gyfreithlon a chytbwys ar gyfer 2021/22 yn cael ei hailosod.

## 58. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR GYDBWYLLGORAU CYFUN

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad gan egluro bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cyhoeddi papur ymgynghori ar ei chynigion i greu cyrff cyfreithiol newydd i weithio'n rhanbarthol, o'r enw Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau). Roedd y pŵer i gymeradwyo rheoliadau i greu Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a gymeradwywyd yn y Senedd yn ddiweddar. Roedd LlC yn ymgynghori ar y rheoliadau drafft ar gyfer CBCau.

Byddai pedwar CBC yn cyfateb i ardaloedd y Bargeinion Twf yng Nghymru, a'r aelodau ar y cychwyn fyddai holl Arweinwyr y Cynghorau yn yr ardaloedd hynny. Byddent yn arfer swyddogaethau yr oedd LlC yn ystyried ei bod orau iddynt gael eu harfer yn rhanbarthol. Ar hyn o bryd, y cynnig oedd iddynt ymgymryd â datblygu economaidd, cludiant a chynllunio strategol. Byddai'r CBCau yn rhannu rheolau craidd cyffredin ond gellid eu teilwra i gyd-fynd â threfniadau rhanbarthol a oedd eisoes ar waith ac ar gyfer anghenion pob rhanbarth.

Roedd Gogledd Cymru ar y cyfan, a'r Cyngor yn benodol, yn defnyddio patrwm effeithiol a chadarn o gydweithio a gweithio'n rhanbarthol. Gallai'r Cyngor felly gefnogi creu CBCau fel ffordd o wneud mwy o waith ar y cyd yn rhanbarthol.

Roedd gan y rhanbarth Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) wedi ei sefydlu ers tro ac roedd ar hyn o bryd wrthi'n cymeradwyo'r Fargen Dwf derfynol gyda Llywodraethau Cymru a'r DU. Roedd felly yn hanfodol bod CBC Gogledd Cymru'n ychwanegu gwerth at waith BUEGC.

O'r ddogfen ymgynghori, roedd yn debyg y byddai gan CBCau bwerau a oedd yn gorgyffwrdd â swyddogaethau'r prif gynghorau yng Ngogledd Cymru ac roedd angen mwy o eglurder am union gwmpas y swyddogaethau.

Byddai CBCau yn penodi eu swyddogion eu hunain a byddai angen iddynt benodi swyddogion statudol allweddol fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151. Gallai cost y swyddi hyn gael ei chadw i'r isafswm trwy roi'r cyfrifoldebau i awdurdod cynnal a defnyddio personél sy'n cael eu cyflogi'n barod i wneud y gwaith.

Roedd LlC hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn cynnig y byddai CBCau yn ysgwyddo cyfrifoldeb am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Roedd y Grŵp Strategaeth Gynllunio wedi paratoi ymateb manwl i gwestiynau'r ymgynghoriad, a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Yn olaf, roedd LlC yn cynnig y dylai CBCau ysgwyddo rôl paratoi'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol a datblygu polisïau ar gyfer cludiant yn y rhanbarth. Trafodwyd y cynnig yng nghyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi ar 8 Rhagfyr 2020, a oedd yn cefnogi sail yr ymateb.

Roedd amlinelliad o ymateb wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad yn ogystal â'r ymateb i lunio Cynlluniau Datblygu Strategol a oedd wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Strategaeth Gynllunio.

Mynegodd yr Aelodau bryder am y costau a allai ddeillio o sefydlu CBCau, wrth fod angen cael gweithwyr yn lle'r swyddogion a fyddai'n cael eu neilltuo ar eu cyfer a'r camsyniad y byddai'r cynigion yn creu arbedion. Fe wnaethant sylwadau ar y meysydd lle'r oedd cydweithio'n rhanbarthol eisoes yn gweithio'n llwyddiannus.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Roberts, eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y byddai'r Cynllun Datblygu Strategol yn annhebygol o nodi safleoedd i'w datblygu, ond gallai bennu sawl tŷ y byddai angen i bob awdurdod lleol ei ddarparu. Byddai'r Cynllun Datblygu Lleol wedyn yn pennu ym mhle y dylai'r tai hynny gael eu hadeiladu.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai dau ymateb yn cael ei baratoi – un ar CBCau ac un ar y Cynllun Datblygu Strategol a byddent yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal ynglŷn â sut y gallai biwrocratiaeth a chostau gael eu lleihau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r amlinelliad o'r ymateb i'r ymgynghoriad ar CBCau, a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr i orffen llunio ymateb manwl wrth ymgynghori â'r Arweinydd a'r Aelodau Cabinet perthnasol;

(b) Cefnogi’r ymateb a baratowyd gan y Grŵp Strategaeth Gynllunio ar baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol; a

(c) Chefnogi’r ymateb i’r cynigion ynglŷn â Chludiant, yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu’r Amgylchedd a’r Economi.

**59. <u>MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (MIS 7)</u>**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad a oedd yn darparu’r wybodaeth fanwl ddiweddaraf am fonitro cyllideb refeniw Cronfa’r Cyngor a’r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac yn cyflwyno’r sefyllfa yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol erbyn Mis 7. Roedd yr adroddiad yn rhagdybio beth fyddai sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pe bai popeth yn aros heb ei newid. Roedd hefyd yn ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ar gyhoeddiadau Cyllid Grant at Argyfwng Llywodraeth Cymru.

Y sefyllfa a ragwelid ar ddiwedd y flwyddyn, heb gamau gweithredu newydd i leihau pwysau o ran costau a/neu wella’r elw trwy gynllunio arbedion effeithlonrwydd a rheoli costau, oedd:

**Cronfa’r Cyngor**
- Diffyg gweithredol o £0.196 miliwn (heb gynnwys effaith y dyfarniad cyflog a fyddai’n cael ei dalu o gronfeydd wrth gefn), a oedd yn newid ffafriol o £0.373 miliwn ers ffigwr y diffyg a adroddwyd ym mis 6.
- Rhagwelid y byddai balans y gronfa wrth gefn at raid ar 31 Mawrth 2021 yn £1.415 miliwn.

**Y Cyfrif Refeniw Tai**
- Rhagwelid y byddai gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £0.460 miliwn yn is na’r gyllideb.
- Rhagwelid y byddai balans terfynol ar 31 Mawrth o £2.633 miliwn.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion am y sefyllfa a ragwelid, y sefyllfa a ragwelid yn ôl portffolio, newidiadau sylweddol ers mis 6, risgiau agored, risgiau newydd a oedd yn dod i’r amlwg, cyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn a chronfeydd wrth gefn a balansau.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod hon yn sefyllfa gadarnhaol i fod ynddi ar y pwynt hwn.

Canmolodd yr Aelodau’r tîm cyllid am eu holl waith.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Nodi’r adroddiad cyffredinol a’r swm wrth gefn a ragwelid ar gyfer Cronfa’r Cyngor ar 31 Mawrth 2021; a

(b) Nodi'r lefel derfynol o falansau a ragwelid ar y Cyfrif Refeniw Tai.

**60. <u>ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI’R TRYSORLYS 2020/21</u>**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad a chyflwynodd ddrafft Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys i'w gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn ddiweddar wedi cael ei ystyried a'i gefnogi yn y Pwyllgor Archwilio.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys yn cael ei gymeradwyo a'i argymell i'r Cyngor.

## 61. TEULUOEDD YN GYNTAF – YR ELFEN ARIANNU

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn darpariaeth gwasanaethau atal a chymorth wedi'u hariannu Teuluoedd yn Gyntaf am hyd at 12 mis, yn ddibynnol ar i Lywodraeth Cymru gymeradwyo mwy o gyllid. Byddai hyn yn galluogi:

- Parhau i ddarparu gwasanaethau allweddol i rieni, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phlant anabl yn Sir y Fflint a oedd yn elwa fwyaf o gymorth cynnar i ddatblygu gwytnwch a lles;
- Gweithredu'r Hwb Cymorth Cynnar yn effeithiol; a
- Gweithio gyda phartneriaid i werthuso, datblygu a chomisiynu gwasanaethau atal a chymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd Sir y Fflint.

Roedd yr Aelodau'n llwyr gefnogol o'r adroddiad a gwnaethant sylwadau ar ymyrraeth gynnar hanfodol oedd yn cael ei darparu gan y gwasanaeth hwn.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo estyniad, yn ddibynnol ar i Lywodraeth Cymru gymeradwyo mwy o gyllid am gyfnod o chwe mis, gydag opsiwn am chwe mis arall os oes angen.

## 62. COMISIYNU GWASANAETHAU DIWRNOD ANABLEDDAU DYSGU

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor wedi prynu gwasanaethau dydd anableddau dysgu wedi'u teilwra ar gyfer awtistiaeth i dri ar ddeg o unigolion trwy brynu 'ar y pryd'.

Nid oedd unrhyw gytundeb fframwaith perthnasol ar waith a oedd yn trafod comisiynu gwasanaethau o'r fath na chytundeb contractau'n adlewyrchu'r gwasanaethau oedd wedi'u prynu ar hyn o bryd.

Roedd y darparwr gwasanaeth presennol wedi dweud bod y cytundeb prynu 'ar y pryd' presennol angen ei ddisodli â chytundeb mwy ffurfiol dan gontract er mwyn galluogi parhad gwasanaeth yn y dyfodol.

Cyflwynwyd Adroddiad Eithriadau yn ceisio dyraniad uniongyrchol ar gyfer y gwasanaethau oedd yn cael eu prynu ar hyn o bryd ym mis Medi 2020. Roedd y rhesymeg yn seiliedig yn bennaf ar yr angen am sicrhau parhad gwasanaeth i'r unigolion oedd yn cael y gwasanaethau dydd. Roedd cyngor gan y Tîm Caffael

yn dweud bod sail yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ar gyfer dyraniad uniongyrchol byrdymor, nid am ddyraniad uniongyrchol hirdymor. Oherwydd yr amcangyfrif o gostau blynyddol gwasanaethau, roedd angen penderfyniad gan y Cabinet i sancsiynu unrhyw ddyraniad uniongyrchol mwy hirdymor.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) y byddai staff yn sicrhau bod anghenion yr unigolion yn dal i gael eu diwallu.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog bod y cwmni arbenigol wedi'i leoli yng Nghilgwri (y Wirral).

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo dyfarnu contract yn uniongyrchol i'r darparwr gwasanaeth presennol ar gyfer y Gwasanaethau Cymunedol a Gwirfoddol, fel yr oedd yr adroddiad yn ei nodi.

## 63. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH CAFFAEL AR Y CYD 2019/20

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad gan egluro bod gan y Cyngor gyd-wasanaeth caffael gyda Chyngor Sir Ddinbych, sef yr awdurdod cynnal. Roedd y cyd-wasanaeth wedi bod ar waith ers 2014 ac fe gytunodd y Cabinet i adnewyddu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth hwnnw gyda Sir Ddinbych yn 2018.

Roedd y gwasanaeth yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgarwch a pherfformiad ynghlwm â thargedau o'r Strategaeth Gaffael. Roedd yr ail adroddiad blynyddol wedi'i atodi i'r adroddiad. Roedd yn dangos gwelliant bach ynghlwm â'r rhan fwyaf o ddangosyddion perfformiad allweddol – tuedd gadarnhaol a allai gael ei chyflymu a'i hehangu.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad perfformiad blynyddol, a chefnogi'r camau oedd yn cael eu cynnig i wella perfformiad, lle'r oedd angen.

## 64. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor yn gwario tua £197 miliwn bob blwyddyn ar brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Roedd y Cyngor am sicrhau ei fod yn gwario gyda sefydliadau a oedd yn rhannu gwerthoedd moesegol tebyg ac, yn enwedig, gyda sefydliadau oedd yn osgoi camfanteisio neu orfodi amodau annheg ar eu gweithwyr. Roedd ymrwymiad a gweithgarwch y Cyngor yn hynny o beth wedi'u nodi yn ei Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern.

Roedd y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i weithredu'r camau a addawyd yn natganiad y llynedd ac roedd bellach wedi sefydlu prosesau allweddol fel cymalau contractio a chaffael yn gwahardd arferion cyflogaeth anfoesegol o fewn y gadwyn gyflenwi. Yn anochel, oherwydd y galw ar swyddogion, ni fu modd gwneud yr holl hyfforddiant a gwaith codi ymwybyddiaeth

a ddisgwylid a byddai gweithgarwch dros y 12 mis nesaf felly'n canolbwyntio ar hynny.

Croesawai'r Aelodau'r adroddiad gan gydnabod pwysigrwydd y pwnc. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei bod hi wedi bod mewn tair sesiwn hyfforddiant, ynghyd â'r Cynghorydd Mullin, ac argymhellodd i'r Aelodau eraill fynd ar hyfforddiant o'r fath.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bithell, dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod hefyd angen deall beth oedd yng nghadwyni cyflenwi cwmnïau y tu allan i'r DU lle'r oedd achosion o brynu'n ymestyn y tu hwnt i gontract yn y DU.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo a chyhoeddi'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern.

## 65. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARNTERSHIP RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2019/20

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ac eglurodd fod Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dweud bod angen i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi, cyhoeddi a chyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru (LIC). Oherwydd y sefyllfa o argyfwng, dyddiad cyflwyno'r adroddiad blynyddol oedd diwedd Hydref 2020.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r partneriaid am Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2019/20. Roedd yr adroddiad yn dangos y cynnydd oedd wedi'i wneud mewn perthynas â ffrydiau gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) mai blaenoriaeth y Bwrdd yn 2019/2020 oedd cyflawni ei bedair rhaglen drawsnewid uchelgeisiol ar gyfer "Cymru iachach", a oedd wedi'u bwriadu i arwain at ddatblygu gwasanaethau cymunedol integredig yn gyflym ar draws y rhanbarth. Mewn blwyddyn heriol tu hwnt ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, roedd ein timau ar draws Gogledd Cymru wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y cyfnod hwn i gynnig gwasanaeth i'n trigolion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cadarnhau bod y Cabinet wedi darllen, deall ac ystyried y gwaith sydd angen cael ei wneud gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; a

(b) Nodi'r gwaith a'r cynnydd yn 2019/20 ar y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 66. YMARFER PWERAU DIRPRWEDIG

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

**Tai ac Asedau**

- **Datgan bod y safle garejis ar Princess Avenue, Bwcle, yn ychwanegol i'r hyn oedd angen**

  Datgan bod y safle garejis ar Princess Avenue, Bwcle, yn ychwanegol i'r hyn oedd angen er mwyn gallu cael gwared â'r ased i Gymdeithas Dai Clwyd Alyn er mwyn gallu datblygu tai fforddiadwy.

**Addysg ac Ieuenctid**

- **Ysgol Penyffordd – Safle Plant Iau**

  Cais i ddatgan Safle Plant Iau Ysgol Penyffordd yn ychwanegol i anghenion Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 ac 15 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**67. ADRODDIAD DIWYDRWYDD DYLADWY TERFYNOL ADM THEATR CLWYD**

Cyflwynodd y Cynghorydd Butler yr adroddiad ac eglurodd fod y Cabinet wedi cytuno i drosglwyddo Theatr Clwyd i fodel llywodraethu newydd yn rhan o Raglen Model Cyflenwi Amgen y Cyngor. Roedd Theatr Clwyd a'r Gwasanaethau Cerdd i gael eu rheoli gan gwmnïau elusennol annibynnol, wedi'u cyfyngu trwy warant, o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Roedd yr adroddiad yn nodi (1) y trefniadau trosglwyddo, (2) diwydrwydd dyladwy, (3) y contract gwasanaeth drafft a oedd yn cael ei lunio gyda chyngor cyfreithiol a (4) y cynnig gan Theatr Clwyd Trust Ltd i reoli'r Gwasanaethau Theatr a Cherdd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cabinet yn fodlon â'r trefniadau i drosglwyddo Theatr Clwyd a'r Gwasanaethau Cerdd, a'i fod wedi'i sicrhau bod diwydrwydd dyladwy wedi'i roi;

(b) Derbyn y cynnig i Fwrdd Ymddiriedolaeth newydd ysgwyddo trefniadau rheoli Theatr Clwyd, yn seiliedig ar yr egwyddorion a'r cynigion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad blaenorol i'r Cabinet;

(c) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr i lofnodi cytundeb ffurfiol i wneud trosglwyddiad rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar yr

egwyddorion a’r cynigion sydd wedi’u nodi yn yr adroddiad blaenorol i’r Cabinet;

(d) Bod trosglwyddiadau Theatr Clwyd, Theatr Clwyd Productions Ltd a’r Gwasanaethau Cerdd i berchnogaeth Theatr Clwyd Trust Ltd yn cael eu gwneud ar 1 Ebrill 2021; a

(e) Chymeradwyo’r raddfa gyflog ddiwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Cerdd.

## 68. GWERTHU FFARM TREFORYS, SEALAND

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor yn berchen ar rydd-ddaliad Fferm Morriston a’r tir a oedd i’w weld yn yr atodiad i’r adroddiad.

Byddai’r cymal gorswm arferol ar werthu’r tŷ a’r erwau.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi gwerthu Fferm Morriston, Sealand.

## 69. CYMERADWYO COSTAU PRYNU AC ADNEWYDDU EIDDO YN MEADOWBANK TREFFYNNON

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i brynu eiddo ym Meadowbank, Treffynnon.

Roedd yr adroddiad yn nodi gwybodaeth am brynu’r eiddo, gan gynnwys y lleoliad, mathau arfaethedig o eiddo a’r costau adeiladu disgwyliedig.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo prynu ac adnewyddu pum eiddo yn Meadowbank, Treffynnon am £292,000.

## 70. CYNLLUN COSTAU CYNLLUN HIRAETHOG A FFORDD PANDARUS, RHAGLEN TAI AC ADFYWIO STRATEGOL (SHARP)

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y cynllun ariannu i ddatblygu 30 o gartrefi Rhent Cymdeithasol newydd ar Ffordd Hiraethog a Ffordd Pandarus ym Mostyn.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y cynlluniau a’r pecyn ariannu, gan gynnwys y costau adeiladu disgwyliedig.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo’r cynllun ariannu i ddatblygu 30 o gartrefi Rhent Cymdeithasol newydd ar Ffordd Hiraethog a Ffordd Pandarus, Maes Pennant, Mostyn; a

(b) Chymeradwyo benthyciad darbodus gwerth £3,758,569 miliwn (yn dibynnu ar gymeradwyaeth a gwiriad terfynol) i ariannu'r datblygiad.

## 71. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.55 am)

..................................................

**Y Cadeirydd**